



Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

**Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a
Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol**

Nodiadau Cyfarwyddyd

CYNNWYS

	PARAGRAFF
Cyflwyniad	1
Amcanion Strategol a Thematig	14
Pwy all wneud cais	21
Gweithgareddau Cymwys	30
Gweithgareddau Anghymwys	53
Costau Cymwys	60
Costau Anghymwys	83
Cyfradd grant uchaf a'r trothwy grant uchaf	89
Cymorth y Wladwriaeth	111
Dewis prosiectau llwyddiannus	114
Gofynion allweddol	116
Dangosyddion ac Adrodd	119
Themâu Trawsbynciol	145
Sut mae gwneud cais	148
Amodau Grant	155
Talu Grant	157
Monitro Prosiectau	164
Diwedd Rhaglen EMFF	168
Gweithdrefn Apelio	169
Gweithdrefn Gwyno	171
Atodiad A – Mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth	
Atodiad B - Eitemau o Gyfarpar a Buddsoddiadau Cymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i	

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro Cymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop - a'r math o brosiectau a buddsoddiadau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Darllenwch nhw'n ofalus. Os ydych chi'n credu wedyn y gallai'ch cynlluniau buddsoddi neu brosiect fod yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais am gymorth, darllenwch adran "Sut mae Gwneud Cais" yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn a'r Canllawiau 'Sut mae Gwneud Cais' atodol.
2. Mae cymorth grant ar gael o dan raglen EMFF 2014-2020. Bydd y rhaglen yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a ganlyn:
 - hybu pysgodfeydd cystadleuol, sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn economaidd hyfyw ac yn gymdeithasol gyfrifol
 - meithrin y broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith
 - hybu datblygiad tiriogaethol cytbwys a chynhwysol ardaloedd pysgodfeydd
 - meithrin y gwaith o ddatblygu a gweithredu Polisi Morol Integredig yr Undeb mewn modd sy'n gydnaws â'r polisi cydlyniant ac â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
3. Ni fydd cyflawni'r amcanion uchod yn cynyddu capasiti pysgota cwch nac yn cynyddu gallu cwch i ddod o hyd i bysgod.
4. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer prosiectau a buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
 - cymorth ar gyfer dylunio, datblygu a gweithredu mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan ddarpariaethau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP); a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan ddarpariaethau'r CFP
 - arloesi yng nghyswllt cadwraeth adnoddau biolegol morol - datblygu neu gyflwyno gwybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd sy'n:
 - lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd, neu'n
 - mynd ati i sicrhau defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau biolegol morol, a chydfodolaeth ag ysglyfaethwyr gwarchoddedig
 - gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol, gan gynnwys:
 - pysgotwyr yn casglu gwastraff o'r môr
 - rheolaeth neu gadwraeth adnoddau biolegol morol
 - cynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth
 - rheolaeth a/neu gadwraeth safleoedd gwarchoddedig
 - gwarchod a datblygu fflora a ffawna dyfrol mewndirol; gan gynnwys rheoli ac adfer safleoedd NATURA 2000 ac adfer dyfroedd mewndirol.
5. Mae EMFF yn bwysig i'r diwydiant pysgota ac i gymunedau arfordirol gan y bydd yn helpu busnesau i addasu i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig ac i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector a thwf economaidd yr ardal.

6. Y ffocws i Gymru yw datblygu sector pysgota bywiog, cystadleuol a chynaliadwy, gan hwyluso'r broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith, manteisio ar botensial dyframaethu ac annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol.
7. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod prosiectau neu fuddsoddiadau arfaethedig yn dechnegol ddichonadwy, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol ac unrhyw ofynion diogelwch eraill sy'n benodol i'r prosiect.
8. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw gyfarpar a brynir gydag arian EMFF yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol angenrheidiol. Os bydd cyfarpar a brynir wedyn yn dod yn ddiwerth neu'n anghyfreithlon, ar yr ymgeisydd mae'r risg; ni fydd modd hawlio yn erbyn y cynllun na chael ad-daliad.
9. Lle bo'n berthnasol, rhaid i ymgeiswyr ddangos hefyd bod yna farchnad hyfyw ar gyfer eu cynnyrch/cynhyrchion ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant.
10. Mae'r Rhaglen yn ddewisol a byddai swm y grant a gynigir yn gysylltiedig ag amgylchiadau unigol. Yr **isafswm angenrheidiol** fyddai hynny bob tro i alluogi'r prosiect i fynd rhagddo.
11. Ni chaiff perchennog cwch pysgota sy'n cael cymorth drosglwyddo'r cwch hwnnw y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ystod o leiaf y bum mlynedd ar ôl dyddiad taliad gwirioneddol y cymorth hwnnw i'r buddiolwr. Os yw cwch yn cael ei drosglwyddo o fewn y cyfnod hwnnw, bydd symiau a dalwyd yn ormodol mewn perthynas â'r prosiect yn cael eu hadennill gan Lywodraeth Cymru, mewn swm sy'n gymesur â'r cyfnod pan nad yw'r amod wedi ei gyflawni.
12. Dim ond amlinelliad o'r Rhaglen a'r modd y mae'n cael ei gweithredu yw hwn, a gallai'r rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwysedd newid.

MESURAU PENODOL

13. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn ymwneud â'r Mesurau EMFF a ganlyn, i gefnogi hybu pysgodfeydd sy'n amgylcheddol gynaliadwy:
 - Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol
 - Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol
 - Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff
 - Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol
 - cyfrannu at well rheolaeth neu gadwraeth [ar adnoddau biolegol morol]

- adeiladu, gosod neu foderneiddio cyfleusterau statig neu symudol
- paratoi cynlluniau gwarchod a rheoli cysylltiedig â safleoedd NATURA 2000 ac ardaloedd gwarchodaeth ofodol
- rheoli, adfer a monitro ardaloedd morol gwarchodedig gan gynnwys safleoedd NATURA 2000
- ymwybyddiaeth amgylcheddol
- cymryd rhan mewn camau gweithredu eraill gyda'r nod o gynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth

AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

14. Nod EMFF yw cefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector pysgota a'r sector dyframaethu a gwarchod yr amgylchedd morol, ynghyd â chefnogi twf a swyddi mewn cymunedau arfordirol, drwy'r canlynol:

- Hybu pysgodfeydd cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth:
Canolbwyntio ar arloesi a gwerth ychwanegol, gan hybu pysgodfeydd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau, ac a fydd yn fwy gofalus, yn cynhyrchu llai o wastraff ac yn gwneud llai o ddifrod i ecosystemau morol
- Meithrin dyframaeth gynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth:
Ar gyfer sector dyframaethu sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau; er mwyn helpu busnesau o'r fath i ddod yn economaidd hyfyw ac yn gystadleuol
- Meithrin y broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith:
Cefnogi'r broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith drwy gasglu a rheoli data i wella gwybodaeth wyddonol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o fonitro, rheoli a gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd hefyd
- Cynyddu nifer y swyddi a chydlyniant tiriogaethol:
Cynyddu nifer y swyddi a hybu twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau sy'n ddibynnol ar bysgota drwy ddatblygu lleol a arweinir gan gymunedau
- Meithrin marchnata a phrosesu:
Gwella marchnata a phrosesu ar gyfer cynhyrchion dyframaeth a physgodfeydd
- Meithrin y broses o roi'r Polisi Morol Integredig ar waith:
Cefnogi ymagwedd fwy cydlynol at faterion morol.

15. Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer EMFF yng Nghymru yn cynnwys:

- hwyluso'r broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith, yn cynnwys yr ymrwymiad glanio
- manteisio ar botensial dyframaethu
- gwneud y diwydiant pysgota'n fwy diogel
- annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol
- datblygu lleol a arweinir gan y gymuned

- ychwanegu rhagor o werth at bysgod Cymru
- annog pobl i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn y diwydiant.

16. Rhaid i'r holl brosiectau a gefnogir drwy Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yn cynnwys EMFF gyfrannu at gyflawni un neu fwy o'r amcanion polisi strategol neu'r amcanion thematig. Gallai'r rhain gynnwys egwyddorion llorweddol lefel rhaglen (Themâu trawsbynciol). Gallai'r prosiectau gyfrannu at nifer o amcanion o'r fath ac mae'n rhaid adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny pan gyflwynir pob cais am grant.

17. Mae Erthygl 24 o Reoliad Rhif 508/2014 (UE) ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn egluro y bydd gweithgarwch Datblygu Cynaliadwy mewn Pysgodfeydd o dan EMFF yn cyfrannu at lwyddiant amcanion penodol o dan Flaenoriaeth yr Undeb a nodir yn Erthygl 6(1) o'r un Rheoliad.

18. Mae Erthygl 6(1)(a) yn berthnasol i Erthygl 37, Erthygl 39 ac Erthygl 40.1.a gan ei bod yn hybu pysgodfeydd arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy fynd ati i gyflawni'r amcan penodol a ganlyn - lleihau effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd morol, gan gynnwys osgoi a lleihau, cyn belled â phosibl, dalfeydd diangen.

19. Mae Erthygl 6(1)(b) yn berthnasol i Erthygl 40.1.b-g, i, ac Erthygl 44.6 gan ei bod yn hybu pysgodfeydd arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy fynd ati i gyflawni'r amcan penodol a ganlyn – gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

20. At hyn, mae'n rhaid i brosiectau fynd i'r afael ag un neu fwy o'r Themâu Trawsbynciol sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Weithredol lle bo'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y gweithgareddau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni a'r allbynnau neu'r canlyniadau disgwyliedig. Y Themâu Trawsbynciol yw:

- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a pheidio â gwahaniaethu
- Datblygu cynaliadwy.

PWY ALL WNEUD CAIS

Pob Mesur

21. Mae'r canlynol yn gymwys i wneud cais am gymorth EMFF, **oni nodir yn wahanol** ym mharagraffau 22-27:

- cyrff cyfraith gyhoeddus

- pysgotwyr a / neu berchenogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd pysgota'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru¹
- sefydliadau cynhyrchwyr, sefydliadau cydadranol neu sefydliadau cyhoeddus neu led-gyhoeddus
- sefydliadau pysgotwyr
- sefydliadau anllywodraethol
- cymdeithasau
- mentrau micro, bach, canolig a mawr²
- partneriaethau cyhoeddus-preifat.

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol

22. Rhaid i'r darpariaethau ym mharagraff 21 fod yn berthnasol i Fesur I.14: Erthygl 37.

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

23. Yn ychwanegol at ddarpariaethau paragraff 21, bydd prosiectau yn cael eu cynnal gan gorff gwyddonol neu dechnegol, neu mewn cydweithrediad â chorff o'r fath, a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth, a fydd yn dilysu canlyniadau y prosiectau hyn.

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

24. Gan randdirymu darpariaethau paragraff 21, **dim ond** y canlynol sy'n gymwys i wneud cais am gymorth o Fesur I.17: Erthygl 40.1.a:

- cyrff cyfraith gyhoeddus technegol neu wyddonol
- Cynghorau Cynghori
- pysgotwyr a / neu berchenogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd pysgota'r UE ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru³
- sefydliadau pysgotwyr a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth
- sefydliadau anllywodraethol mewn partneriaeth â sefydliadau pysgotwyr

¹ Dylai cychod a gaiff eu gweithredu y tu allan i Gymru ac y mae eu perchenogion yn byw y tu allan i Gymru wneud cais i'w gwlad eu hunain.

² Ystyrir menter yn unrhyw endid sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd, waeth beth fo'i ffurf gyfreithiol.

³ Dylai cychod a gaiff eu gweithredu y tu allan i Gymru ac y mae eu perchenogion yn byw y tu allan i Gymru wneud cais i'w gwlad eu hunain.

- sefydliadau anllywodraethol mewn partneriaeth â Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

25. Mae Mesur I.18 yn ymwneud â chymorth o dan ddwy Erthygl: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6. Nodir y mathau o sefydliadau ac ymgeiswyr sy'n gymwys i wneud cais o dan y ddwy Erthygl hyn isod.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i:

26. Gan randdirymu darpariaethau paragraff 21, **dim ond** y canlynol sy'n gymwys i wneud cais am gymorth o Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i:

- cyrff cyfraith gyhoeddus technegol neu wyddonol
- Cyngorau Cyngori
- pysgotwyr a / neu berchenogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd pysgota'r UE ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru⁴
- sefydliadau pysgotwyr a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth
- sefydliadau anllywodraethol mewn partneriaeth â sefydliadau pysgotwyr
- sefydliadau anllywodraethol mewn partneriaeth â Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd

Mesur I.18: Erthygl 44.6:

27. Rhaid i'r darpariaethau ym mharagraff 21 fod yn berthnasol i Fesur I.18: Erthygl 44.6.

Pob Mesur

28. Ni dderbynnir ceisiadau gan sefydliadau, busnesau nac unigolion sydd wedi'u collfarnu o dwyll o dan naill ai Cronfa Pysgodfeydd Ewrop neu EMFF.

29. Ni dderbynnir ceisiadau gan sefydliadau, busnesau nac unigolion sydd wedi'u collfarnu o droseddau y mae Llywodraeth Cymru neu'r UE yn eu hystyried yn 'dor-rheolau difrifol' neu'n dwyll, yn y 12 mis cyn gwneud cais. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar wahân ar Dor-rheolau Difrifol a Thwyll.

⁴ Dylai cychod a gaiff eu gweithredu y tu allan i Gymru ac y mae eu perchenogion yn byw y tu allan i Gymru wneud cais i'w gwlad eu hunain.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

Pob Mesur

30. Cyfeiriwch at y Cyflwyniad i'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ar gyfer egwyddorion allweddol a gofynion cymhwysedd sy'n berthnasol i bob Mesur.

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol

31. Bydd gweithgareddau'n cefnogi addasu i ddiwygiad y CFP, gan gefnogi'r angen i wreiddio dulliau rhanbarthol drwy gydweithredu er mwyn cefnogi cynlluniau aml-flwydd ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig drwy gwmnïau cydweithredol ac adeiladu rhwydweithiau.
32. Yn benodol, er mwyn sicrhau y caiff mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan Erthyglau 7, 8 ac 11 y CFP eu dylunio a'u gweithredu'n effeithlon, a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan Erthygl 18 y CFP, bydd gweithgareddau'n cefnogi'r canlynol:
- dylunio, datblygu a monitro'r dulliau technegol a gweinyddol sydd eu hangen er mwyn datblygu a gweithredu mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan Erthyglau 7, 8 ac 11 y CFP, a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan Erthygl 18 y CFP
 - cyfranogiad a chydweithrediad rhanddeiliaid rhwng Aelod-wladwriaethau wrth ddylunio a gweithredu mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan Erthyglau 7, 8 ac 11 y CFP, a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan Erthygl 18 y CFP.
33. Mae Atodiad A yn darparu rhagor o fanylion ynghylch mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan Erthyglau 7, 8 ac 11 y CFP, a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan Erthygl 18 y CFP.
34. Gall yr EMFF gefnogi ailstocio uniongyrchol pan ddarperir ar ei gyfer fel mesur cadwraeth mewn deddf gyfreithiol yr Undeb, a phryd hynny **yn unig**.

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

35. Bydd gweithgareddau'n cyfrannu at ddileu'n raddol yr achosion o daflu bywyd môr yn ôl a sgil-ddaliadau, ac yn hwyluso'r gwaith o drawsnewid i ddatblygu adnoddau biolegol morol byw yn unol ag Erthygl 2.2 y CFP, yn ogystal â lleihau effaith pysgota ar yr amgylchedd morol, ac effaith ysglyfaethwyr gwarchoddedig.
36. Yn benodol, bydd gweithgareddau'n cefnogi addasu i ddiwygiad y CFP, cefnogi'r angen am ymagweddau arloesol at fesurau cadwraeth drwy brosiectau peilot i gyfyngu ar yr achosion o sgil-ddaliadau a'r effeithiau ar wely'r môr.

37. Y gweithgareddau cymwys yw prosiectau sy'n:

- datblygu neu'n cyflwyno gwybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd wedi'i hanelu at:
 - leihau effaith gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd, gan gynnwys technegau pysgota gwell a dewis gwell o offer
 - sicrhau defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau biolegol morol a chydfodolaeth ag ysglyfaethwyr gwarchoddedig.

38. Caiff prosiectau eu cwblhau gan gorff gwyddonol neu dechnegol a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth, neu mewn cydweithrediad â chorff o'r fath. Bydd y corff gwyddonol neu dechnegol hwnnw yn dilysu canlyniadau'r prosiectau hyn.

39. Bydd canlyniadau prosiectau sy'n derbyn cymorth yn cael digon o gyhoeddusrwydd gan Lywodraeth Cymru, yn unol ag Erthygl 119 Rheoliad (UE) 508/2014 ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

40. Ni ddylai nifer y cychod pysgota a ariennir o dan y Mesur hwn fod yn fwy na 5% o nifer y cychod yn y fflyd genedlaethol, nac yn fwy na 5% o dunelledd y fflyd genedlaethol mewn tunelledd gros, a gyfrifir adeg cyflwyno'r cais.

41. Ni fydd prosiectau nad ydynt yn cymhwyso fel pysgota at ddibenion gwyddonol yn unol ag Erthygl 33 Rheoliad (CE) Rhif 1224/2009⁵ ac sy'n cynnwys profi offer neu dechnegau pysgota newydd yn cael eu cwblhau o fewn cyfyngiadau'r cyfleoedd pysgota a ddyrennir i Lywodraeth Cymru.

42. Caiff y refeniw net a gynhyrchir yn sgil cyfranogiad y cwch pysgota mewn prosiect ei dynnu o wariant cymwys y prosiect. Ystyr y term 'refeniw net' yw incwm pysgotwyr o'r gwerthiant cyntaf o'r pysgod neu'r pysgod cregyn a ddaliwyd wrth gyflwyno a phrofi'r wybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd, llai'r costau gwerthu fel ffioedd neuadd arwerthu.

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

43. Bydd gweithgareddau'n cefnogi'r cyfle i adfer yr amgylchedd drwy brosiectau sy'n adfer gwastraff a sbwriel môr.

44. Yn benodol, caiff cymorth ei ddarparu i brosiectau sy'n ymwneud â physgotwyr yn casglu gwastraff o'r môr, fel tynnu offer pysgota a gollwyd a sbwriel môr.

45. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u cynnwys yn narpariaethau penodol Erthyglau 1 i 2 ac Erthygl 7 Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/531. Y

⁵ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX:32009R1224>

gweithgareddau cymwys fel y'u diffinnir yn y Rheoliad Dirprwyedig hwn yw:

- tynnu offer pysgota a gollwyd o'r môr, yn arbennig i fynd i'r afael â physgota anfwriadol
- prynu ac, os yw'n berthnasol, gosod cyfarpar bach ar y cwch ar gyfer casglu a storio sbwriel
- creu cynlluniau casglu sbwriel i bysgotwyr sy'n cymryd rhan, gan gynnwys cymhellion ariannol
- prynu ac, os yw'n berthnasol, gosod cyfarpar bach yng nghyfleusterau porthladdoedd pysgota ar gyfer storio ac ailgylchu sbwriel
- ymgyrchoedd cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth er mwyn annog pysgotwyr a rhanddeiliaid eraill i gymryd rhan mewn prosiectau i dynnu offer pysgota a gollwyd
- hyfforddiant ar gyfer pysgotwyr ac asiantiaid porthladdoedd.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

46. Mae Mesur I.18 yn ymwneud â chymorth o dan ddwy Erthygl: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6. Nodir y gweithgareddau cymwys o dan y ddwy Erthygl hyn isod.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i:

47. Bydd y gweithgareddau o dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i, yn cefnogi cyflawni Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (MSFD) ac yn annog ymagwedd gydweithredol at Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd gweithgareddau'n cefnogi cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan NATURA 2000 ac yn canolbwyntio ar reoli a gweithredu safleoedd gwarchodedig a gyflwynwyd i gefnogi nodau'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Bydd buddsoddiadau'n cefnogi datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ynghylch amodau safleoedd ac effeithiau'r pwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau, a fydd yn arwain at ymagweddau mwy effeithiol a phenodol at reoli.

48. Y gweithgareddau cymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i yw:

- adeiladu, gosod neu foderneiddio cyfleusterau statig neu symudol a fwriedir i warchod a gwella fflora a ffawna morol, gan gynnwys eu paratoi a'u gwerthuso'n wyddonol
- cyfrannu at well rheolaeth neu gadwraeth adnoddau biolegol morol
- paratoi, gan gynnwys astudio, llunio, monitro a diweddarau cynlluniau gwarchod a rheoli ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â physgota sy'n ymwneud â safleoedd NATURA 2000 ac ardaloedd gwarchodaeth ofodol y cyfeirir atynt yn yr MSFD, ac sy'n ymwneud â chynefinoedd arbennig eraill
- rheoli, adfer a monitro safleoedd NATURA 2000 yn unol â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Adar, a hynny'n unol â fframweithiau gweithredu wedi'u blaenoriaethu ac a sefydlwyd yn unol â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

- rheoli, adfer a monitro Ardaloedd Morol Gwarchoddedig gyda'r nod o weithredu'r mesurau gwarchodaeth ofodol y cyfeirir atynt yn Erthygl 13.4 yr MSFD
- cynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol o ran gwarchod ac adfer bioamrywiaeth forol, a hynny'n cynnwys pysgotwyr
- cymryd rhan mewn camau gweithredu eraill i gynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth, fel adfer cynefinoedd arfordirol a morol penodol, a hynny i gefnogi stociau pysgod cynaliadwy, gan gynnwys eu paratoi a'u gwerthuso'n wyddonol.

49. Mae'r gweithgareddau hyn wedi eu cwmpasu gan ddarpariaethau penodol Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/531 yn cynnwys Erthyglau 1 i 2 ac 8 i 12; caiff prosiectau a buddsoddiadau cymwys eu diffinio ymhellach yn Atodiad B. **Y gweithgareddau a restrir yn Atodiad B, a'r gweithgareddau hynny'n unig, sy'n gymwys am gymorth.**

Mesur I.18: Erthygl 44.6:

50. Bydd y gweithgareddau o dan Fesur I.18: Erthygl 44.6 yn gwarchod ac yn datblygu fflora a ffawna dyfrol, gan gefnogi'r angen am gynefinoedd gwell ar gyfer pysgodfeydd dŵr croyw. Bydd prosiectau yn gwella gwarchodaeth pysgod dŵr croyw a rhai mudol, gan gynyddu lefelau stoc a chydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliad Llyswennod.

51. Y gweithgareddau cymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 44.6 yw:

- rheoli, adfer a monitro safleoedd NATURA 2000 yr effeithir arnynt gan weithgareddau pysgota, ac adfer dyfroedd mewndirol yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan gynnwys silfeydd a llwybrau mudo ar gyfer rhywogaethau mudol, a hynny gyda chyfranogiad pysgotwyr mewndirol, lle bo hynny'n berthnasol (cyflawnir y gweithgareddau hyn heb effeithio ar y gweithgareddau o dan Erthygl 40.1.b-g, i, sy'n ymwneud â rheoli, adfer a monitro safleoedd NATURA 2000)
- adeiladu, moderneiddio neu osod cyfleusterau statig neu symudol a fwriedir i warchod a gwella fflora a ffawna dyfrol, gan gynnwys eu paratoi, eu monitro a'u gwerthuso'n wyddonol.

52. Mae'n rhaid i unrhyw gwch sy'n cael cymorth o dan Fesur I.18: Erthygl 44.6 barhau i weithredu'n gyfan gwbl mewn dyfroedd mewndirol.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

Pob Mesur

53. Mae nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn gymwys am gymorth EMFF:

- buddsoddiadau i gynyddu'r ymdrech bysgota, capasiti cwch neu allu cwch i ddod o hyd i bysgod

Rhif y Fersiwn: 2

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Tudalen 12 o 47

- buddsoddiadau i gynyddu'r capasiti dal pysgod
- buddsoddiadau i adeiladu cychod pysgota neu eu mewnforio
- buddsoddiadau i roi'r gorau i weithgareddau pysgota dros dro neu'n barhaol (oni ddarperir ar eu cyfer fel arall yn rheoliadau EMFF)
- buddsoddiadau ar gyfer pysgota archwiliadol
- buddsoddiadau i drosglwyddo perchenogaeth busnes
- buddsoddiadau i gefnogi ailstocio uniongyrchol oni bai bod deddf gyfreithiol yr Undeb Ewropeaidd yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel mesur cadwraeth neu yn achos ailstocio arbrofol
- prynu neu adeiladu cychod pysgota mewndirol
- adeiladu Deorfeydd i Gimychiaid
- ffermio organebau wedi eu haddasu'n enetig
- eitemau a gwasanaethau sy'n ofynion statudol neu orfodol o dan y gyfraith ac is-ddeddfau
- costau cynnal a chadw ataliol neu sydd wedi'u trefnu ar gyfer unrhyw ddarn o gyfarpar sy'n sicrhau bod dyfais yn gweithio'n iawn
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â physgota hamdden yn y môr neu mewn dŵr croyw
- treillio pwls
- prosiectau sy'n torri amodau gofynion deddfwriaethol Cenedlaethol neu'r Undeb Ewropeaidd
- rhwymedigaethau safonol y diwydiant fel gofynion rheoli statudol
- unrhyw eitemau neu weithgareddau unigol neu ar wahân y mae buddiolwr eisoes wedi cael neu'n bwriadu cael arian ar eu cyfer gan yr Undeb Ewropeaidd heblaw EMFF.

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol

54. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraff 53 uchod, nid yw cyllido'r gweithgareddau a ganlyn yn gymwys:

- unrhyw weithgaredd nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad fod Mesur I.14: Erthygl 37 yn cefnogi gweithgareddau i ehangu darpariaethau Erthyglau 7, 8, 11 ac 18 y CFP
- ailstocio uniongyrchol, oni bai y darperir ar ei gyfer fel mesur cadwraeth mewn deddf gyfreithiol yr Undeb.

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

55. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraff 53 uchod, nid yw cyllido'r gweithgareddau a ganlyn yn gymwys:

- prosiectau nad ydynt yn cael eu cwblhau gan gorff gwyddonol neu dechnegol a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth, neu mewn cydweithrediad â chorff o'r fath

- prosiectau lle mae nifer y cychod pysgota sy'n rhan ohonynt yn fwy na 5% o nifer y cychod yn y fflyd genedlaethol, neu'n fwy na 5% o dunelledd y fflyd genedlaethol mewn tunelledd gros, a gyfrifir adeg cyflwyno'r cais
- prosiectau **nad ydynt** yn cael eu cwblhau o fewn cyfyngiadau'r cyfleoedd pysgota a ddyrennir i Lywodraeth Cymru **ac** sy'n bodloni maen prawf a) a maen prawf b) isod:
 - a) prosiectau nad ydynt yn cymhwyso fel pysgota at ddibenion gwyddonol yn unol ag Erthygl 33 Rheoliad (CE) Rhif 1224/2009⁶ a
 - b) phrosiectau sy'n cynnwys profi technegau neu offer pysgota newydd
- cyllido prosiectau arloesi sy'n bodoli'n barod; er hynny mae cyllido cyfnod neu weithgaredd newydd ar wahân sy'n adeiladu ar brosiect blaenorol neu bresennol yn gymwys.

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

56. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraff 53 uchod, nid yw cyllido'r gweithgareddau a ganlyn yn gymwys:

- mae darpariaethau penodol Erthyglau 1 i 2 ac Erthygl 7 Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/531 yn berthnasol i'r Mesur hwn; mae'r darpariaethau hyn yn nodi **nad** yw unrhyw weithgaredd **nad** yw wedi'i restru ym mharagraff 45 uchod yn gymwys am gymorth.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

57. Mae Mesur I.18 yn ymwneud â chymorth o dan ddwy Erthygl: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i:

58. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraff 53 uchod, nid yw cyllido'r gweithgareddau a ganlyn yn gymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i:

- prynu cwch er mwyn ei suddo a'i ddefnyddio fel riff artiffisial
- costau sy'n ymwneud â gwneuthuriad dyfeisiau cydgasglu pysgod a'u cynnal a chadw
- mae darpariaethau penodol Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/531 yn cynnwys Erthyglau 1 i 2 ac 8 i 12 yn berthnasol i'r Mesur hwn; o dan y darpariaethau hyn, **nid** yw unrhyw weithgaredd **nad** yw wedi'i restru yn Atodiad B i'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn gymwys am gymorth.

⁶ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX:32009R1224>

Mesur I.18: Erthygl 44.6:

59. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraff 53 uchod, nid yw cyllido'r gweithgaredd a ganlyn yn gymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 44.6:

- cymorth ar gyfer unrhyw gwch nad yw'n parhau i weithredu'n gyfan gwbl mewn dyfroedd mewndirol.

COSTAU CYMWYS

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol

60. Mae cymorth o dan Fesur I.14: Erthygl 37 yn gallu cynnwys:

- ffioedd ymgynghorydd a ffioedd technegol a phroffesiynol eraill
- ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydsyniadau, lle bo hynny'n uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer darparu'r prosiect
- costau staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect a, lle gellir dangos eu bod yn darparu gwerth am arian, costau rhedeg eraill prosiect
- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer) sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu'r prosiect ac yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect
- costau sy'n angenrheidiol ar gyfer annog, datblygu a galluogi cyfranogiad rhanddeiliaid a chydweithrediad rhwng Aelod-wladwriaethau wrth ddylunio a gweithredu mesurau cadwraeth cymwys a chydweithrediad rhanbarthol cymwys, gan gynnwys:
 - ysgogi – costau refeniw i bobl (ysgogwyr) a fyddai'n trefnu ac yn hwyluso cyfranogiad rhanddeiliaid a'r gwaith o greu partneriaethau a rhwydweithiau, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth (byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith ysgogi hefyd yn ymwneud â recriwtio rhanddeiliaid a'r rhwydweithio rhyngddynt)
 - hwyluso a gweithredu – costau refeniw i bobl, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, a fydd yn hwyluso ac yn rheoli'n uniongyrchol y gwaith o ddylunio, datblygu a monitro mesurau cadwraeth cymwys ar y cyd
 - cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth – costau refeniw i gefnogi'r gwaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau arfaethedig; lledaenu gwybodaeth ymhlith cymunedau rhanddeiliaid; cyfathrebu parhaus rhwng rhanddeiliaid ac Aelod-wladwriaethau a lledaenu'r canfyddiadau a'r canlyniadau yn derfynol, gan gynnwys costau digwyddiadau neu seminarau, costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, costau lleoliad a/neu arlwyyo, a chostau'n ymwneud â chyhoeddi canlyniadau
- os yw'n uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer sicrhau nodau'r prosiect, ac yn ymwneud yn uniongyrchol â hynny – a lle defnyddir canfyddiadau'r gwerthusiad i gyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith parhaus o ddylunio,

datblygu a monitro mesurau cadwraeth cymwys – cymorth ar gyfer gwerthuso mesurau cadwraeth cymwys

- os yw'n uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer sicrhau nodau'r prosiect, ac yn ymwneud yn uniongyrchol â hynny, costau refeniw uniongyrchol cwblhau unrhyw dreialau neu brosiectau peilot (cyfeirio at "brosiectau prawf" y mae'r term hwn) er mwyn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith parhaus o ddylunio, datblygu a monitro mesurau cadwraeth cymwys.

61. Yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 62, gall cymorth, os gellir dangos ei fod yn angenrheidiol yn uniongyrchol ar gyfer darparu'r prosiect ac yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect, hefyd gynnwys:

- prynu a gosod eitemau peirianwaith a chyfarpar bach sy'n costio llai na'r trothwy cyfalafu y cytunwyd arno, ac felly nad ydynt yn golygu gwariant cyfalaf, hyd at werth marchnad yr ased (gweler paragraff 62 isod)
- asedau anniriaethol fel caffael neu ddatblygu meddalwedd gyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

Nid yw gwariant cyfalaf yn gymwys.

62. Fel arfer, diffinnir gwariant cyfalaf yn unol â throthwy cyfalafu buddiolwr. Fel arfer, diffinnir hyn fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny â throthwy cyfalafu sefydliadol dros £5,000 fod yn gymwys am drothwy cyfalafu dros £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol, yn amodol ar gyflwyno achos â thystiolaeth briodol. Cynghorir buddiolwyr yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w roi ar eu prosiect.

63. Mae eitemau bach o gyfarpar ail-law sy'n cydymffurfio â darpariaethau paragraffau 61 a 62 uchod yn gymwys (i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yn unig) lle mae'r ymgeisydd yn gallu dangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol
- ei fod yn addas i'r diben
- bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

64. Ni fydd hurio, prydlesu neu logi cerbydau ar gyfer cludiant mewnol yn gymwys oni bai fod y cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect ac ni fod yn cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall.

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

65. Mae cymorth o dan Fesur I.16: Erthygl 39 yn gallu cynnwys:

- ffioedd ymgynghorwyr, ffioedd technegol a phroffesiynol eraill; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydysniadau
- costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

- costau rhedeg prosiect, gan gynnwys costau staff a rhent ar gyfer eiddo; llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd prosiect rheolaidd; costau offer swyddfa; costau ffôn a/neu'r rhyngwyd
- costau uniongyrchol i gynnal treialon corfforol angenrheidiol fel rhan o'r prosiect. Gall hyn gynnwys llogi cyfleusterau/cyfarpar arbenigol a chyllido gwasanaethau ansafonol
- defnyddiau traul ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch prosiect neu dreial
- costau samplo a dadansoddi rhesymol
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol er mwyn galluogi arbenigwyr i ymweld â safleoedd prosiectau. Gall hyn gynnwys aros dros nos lle bo angen hynny a lle bo modd ei gyfiawnhau. Mae'n rhaid costio'r eitemau hyn yn glir a'u cyfiawnhau yn unol â chynllun y prosiect i gefnogi'r ffurflen gais
- Costau hyrwyddo, lle gellir eu cyfiawnhau, wrth gyhoeddi canlyniadau'r prosiect.

66. Yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 67, gall cymorth, os gellir dangos ei fod yn angenrheidiol yn uniongyrchol ar gyfer darparu'r prosiect ac yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect, hefyd gynnwys:

- prynu a gosod eitemau peirianwaith a chyfarpar bach sy'n costio llai na'r trothwy cyfalafu y cytunwyd arno, ac felly nad ydynt yn golygu gwariant cyfalaf, hyd at werth marchnad yr ased (gweler paragraff 67 isod)
- asedau anniriaethol fel caffael neu ddatblygu meddalwedd gyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

Nid yw gwariant cyfalaf yn gymwys.

67. Fel arfer, diffinnir gwariant cyfalaf yn unol â throthwy cyfalafu buddiolwr. Fel arfer, diffinnir hyn fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny â throthwy cyfalafu sefydliadol dros £5,000 fod yn gymwys am drothwy cyfalafu dros £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol, yn amodol ar gyflwyno achos â thystiolaeth briodol. Cynghorir buddiolwyr yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w roi ar eu prosiect.

68. Mae eitemau bach o gyfarpar ail-law sy'n cydymffurfio â darpariaethau paragraffau 66 a 67 uchod yn gymwys (i BBaChau yn unig) lle mae'r ymgeisydd yn gallu dangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol
- ei fod yn addas i'r diben
- bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

69. Ni fydd hurio, prydlesu neu logi cerbydau ar gyfer cludiant mewnol yn gymwys oni bai fod y cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect ac ni fod yn cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall.

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

70. Mae cymorth o dan Fesur I.17: Erthygl 40.1.a yn gallu cynnwys

- costau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant ar gyfer pysgotwyr a/neu asiantiaid porthladdoedd; yn cynnwys ffioedd hyfforddwyr, deunyddiau hyfforddiant a chostau cysylltiedig fel llogi adeilad, arlwyo a theithio a chynhaliaeth
- costau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgareddau neu ddigwyddiadau i ledaenu gwybodaeth, i rannu ymarfer gorau a/neu i annog pysgotwyr a rhanddeiliaid eraill i gymryd rhan mewn prosiectau i dynnu offer pysgota a gollwyd
- costau sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth
- ysgogi – costau refeniw i bobl (ysgogwyr) a fyddai'n trefnu ac yn hwyluso'r gwaith o greu cynlluniau casglu gwastraff cymwys, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth (byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith ysgogi hefyd yn ymwneud â recriwtio rhanddeiliaid a'r rhwydweithio rhyngddynt)
- hwyluso a gweithredu – costau refeniw i bobl, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, a fydd yn darparu ac yn rheoli'n uniongyrchol cynlluniau casglu gwastraff cymwys
- costau staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect a, lle gellir dangos eu bod yn darparu gwerth am arian, costau rhedeg eraill prosiect
- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer) sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu'r prosiect ac yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect
- costau uniongyrchol i gwblhau unrhyw weithgaredd prosiect sy'n ymwneud â chasglu sbwriel neu wastraff, neu dynnu offer pysgota a gollwyd
- cymhellion ariannol i bysgotwyr gymryd rhan mewn cynlluniau casglu gwastraff

71. Yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 73, gall cymorth, os gellir dangos ei fod yn angenrheidiol yn uniongyrchol ar gyfer darparu'r prosiect ac yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect, hefyd gynnwys:

- prynu a gosod eitemau peirianwaith a chyfarpar bach sy'n costio llai na'r trothwy cyfalafu y cytunwyd arno, ac felly nad ydynt yn golygu gwariant cyfalaf, hyd at werth marchnad yr ased (gweler paragraffau 73 a 74 isod)
- asedau anniriaethol fel caffael neu ddatblygu meddalwedd gyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach
- ffioedd ymgynghorwyr, ffioedd technegol a phroffesiynol eraill; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydysniadau.

Nid yw gwariant cyfalaf yn gymwys.

72. O ran prynu eitemau peirianwaith a chyfarpar bach, dim ond y costau hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer ac yn ymwneud yn uniongyrchol â phrynu a gosod eitemau i'w cyllido a fydd yn gymwys i gael cymorth.

73. Fel arfer, diffinnir gwariant cyfalaf yn unol â throthwy cyfalafu buddiolwr. Fel arfer, diffinnir hyn fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny â throthwy cyfalafu sefydliadol dros £5,000 fod yn gymwys am drothwy cyfalafu dros £5,000 a hyd at eu throthwy cyfalafu sefydliadol, yn amodol ar gyflwyno achos â thystiolaeth briodol. Cynghorir buddiolwyr yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w roi ar eu prosiect.

74. Mae eitemau bach o gyfarpar ail-law sy'n cydymffurfio â darpariaethau paragraffau 71, 72 a 73 uchod yn gymwys (i BBaChau yn unig) lle mae'r ymgeisydd yn gallu dangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol
- ei fod yn addas i'r diben
- bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

75. Ni fydd hurio, prydlesu neu logi cerbydau ar gyfer cludiant mewnol yn gymwys oni bai fod y cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect ac ni fod yn cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

76. Mae Mesur I.18 yn ymwneud â chymorth o dan ddwy Erthygl: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6. Gall cymorth dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i, ynghyd â Mesur I.18: Erthygl 44.6 gynnwys:

- costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar
- ffioedd proffesiynol, technegol ac ymgynghorol
- costau rhedeg prosiect, gan gynnwys costau staff a rhent ar gyfer eiddo; llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd prosiect rheolaidd; costau offer swyddfa; costau ffôn a/neu'r rhyngrwyd
- costau uniongyrchol archwilio penodol, astudiaethau neu ddadansoddi gwyddonol, ymchwil neu werthusiadau wedi'u cysylltu â chynllun manwl
- os yw'n angenrheidiol fel rhan o'r prosiect, gallai prosiectau peilot (cyfeirio at "brosiectau prawf" y mae'r term hwn), sydd hefyd wrth gwrs yn gallu bod yn rhan o broses "datblygu" fwy, fod yn gost gymwys
- costau uniongyrchol i gynnal treialon corfforol angenrheidiol fel rhan o'r prosiect. Gall hyn gynnwys llogi cyfleusterau/cyfarpar arbenigol a chyllido gwasanaethau ansafonol
- costau samplo a dadansoddi rhesymol
- cost uniongyrchol sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu mesurau cadwraeth gymwys

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer) ar gyfer cyflawni gweithgarwch prosiect neu dreial
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol er mwyn galluogi arbenigwyr i ymweld â safleoedd prosiectau. Gall hyn gynnwys aros dros nos lle bo angen hynny a lle bo modd ei gyfiawnhau. Mae'n rhaid costio'r eitemau hyn yn glir a'u cyfiawnhau yn unol â chynllun y prosiect i gefnogi'r ffurflen gais
- costau uniongyrchol goruchwyllo sy'n ymwneud yn uniongyrchol â monitro a gwarchod safleoedd NATURA 2000, ardaloedd gwarchodaeth ofodol a chynefinoedd arbennig eraill, gan gynnwys cyflogau unigolion sy'n rhan o'r gwaith goruchwyllo
- costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â hwyluso cydweithredu a rhwydweithio rheolwyr safleoedd NATURA 2000 ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig, ac sy'n angenrheidiol ar gyfer hynny; ac yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi cynlluniau rheoli; ac unrhyw weithgaredd cymwys arall lle gall dull rhwydweithio / partneriaeth ychwanegu gwerth, gan gynnwys:
 - ysgogi – costau refeniw i bobl (ysgogwyr) a fyddai'n trefnu ac yn hwyluso cyfranogiad rhanddeiliaid a'r gwaith o greu partneriaethau a rhwydweithiau, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth (byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith ysgogi hefyd yn ymwneud â recriwtio rhanddeiliaid a'r rhwydweithio rhyngddynt)
 - hwyluso a gweithredu – costau refeniw, gan gynnwys costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, i bobl a fydd yn hwyluso ac yn rheoli'n uniongyrchol y cydweithredu, y rhwydweithio a'r ymgynghori
 - cyfathrebu a lledaenu gwybodaeth – costau refeniw i gefnogi'r gwaith cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau arfaethedig; lledaenu gwybodaeth a lledaenu'r canfyddiadau a'r canlyniadau yn derfynol, gan gynnwys costau digwyddiadau neu seminarau, costau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth, costau lleoliad a/neu arlwy, a chostau'n ymwneud â chyhoeddi canlyniadau
- costau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant; gan gynnwys ffioedd hyfforddwr, deunyddiau hyfforddiant a chostau cysylltiedig fel llogi adeilad, arlwy a theithio a chynhaliaeth
- costau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgareddau neu ddigwyddiadau i lledaenu gwybodaeth a rhannu ymarfer gorau
- costau hyrwyddo, gan gynnwys cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth
- cymhellion ariannol i osod dyfeisiau recordio awtomatig ar gyhod pysgota er mwyn monitro a recordio data eigionegol.

77. Gall cymorth hefyd fod ar gyfer asedau diriaethol fel tir, adeiladau, cyfleusterau statig neu symudol, peiriannau a chyfarpar; ac asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol a chyfleusterau statig neu symudol; gyda thir ond yn gymwys, lle bo'n uniongyrchol angenrheidiol i ddarparu'r prosiect, i raddau nad yw'n uwch na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

- yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 80, prynu a gosod peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased
- costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt yn y ddau bwynt bwled uchod, fel ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, ffioedd sy'n gysylltiedig â chynghor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd heb fod yn fwy na 12% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

78. Mae ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau cynllunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol; archwilio, ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydsyniadau hefyd yn gymwys, hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u prynu cyn derbyn cymeradwyaeth cyn belled eu bod yn hanfodol ar gyfer darparu'r prosiect.

79. Mae'n rhaid i gostau sy'n gysylltiedig â phrynu a/neu adnewyddu a/neu addasu unrhyw adeilad neu gyfleusterau statig neu symudol fod yn briodol i raddfa, natur a bwriad y prosiect. Ni ellir defnyddio grant at ddiben caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig.

80. O ran prynu eitemau peirianwaith a chyfarpar, dim ond y costau hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer ac yn ymwneud yn uniongyrchol â phrynu a gosod eitemau i'w cyllido a fydd yn gymwys i gael cymorth.

81. Mae cyfarpar ail law yn gymwys (ar gyfer BBaChau yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol
- ei fod yn addas i'r diben
- bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

82. Ni fydd hurio, prydlesu neu logi cerbydau ar gyfer cludiant mewnol yn gymwys oni bai fod y cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect ac ni fod yn cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall. Gellir ystyried prynu cerbyd sy'n uniongyrchol angenrheidiol i ddarparu gweithgaredd cymwys yn gost gymwys bosibl os:

- na ddefnyddir y cerbyd gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall **ac**
- mai prynu'r cerbyd sy'n cynrychioli'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddarparu'r gweithgaredd.

COSTAU ANGHYMWYS

83. Mae'r eitemau a ganlyn yn enghreifftiau o fathau eraill o wariant sy'n **anghymwys** ar gyfer cymorth grant EMFF. Nid yw hon yn rhestr derfynol a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos. Cyfeiriwch hefyd at y rhestr benodol i'r Mesur o gostau anghymwys isod ym mharagraffau 86-88, sy'n berthnasol yn ychwanegol at y rhestr a ganlyn:

- costau y gallech eu hadennill yn rhannol neu i gyd drwy wneud hawliad ar bolisi yswiriant neu drwy geisio iawndal neu ddigollediad
- prynu adeiladau sydd wedi'u defnyddio'n flaenorol ar gyfer yr un diben
- unrhyw waith corfforol ar y safle a gyflawnir cyn dyddiad dechrau awdurdodedig y gwaith neu unrhyw wariant yr eir iddo cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y dyfarnwr (**mae unrhyw waith o'r fath a gyflawnir yn rhoi'r dyfarniad cyfan yn y fantol**)
- gwaith dros dro nad yw'n gysylltiedig yn **uniongyrchol** â gweithredu'r prosiect
- prynu stoc masnachu
- cyfalaf gweithio
- TAW adenilladwy
- costau gwaith cynnal a chadw ataliol neu wedi'i drefnu ar gychod a chyfarpar ac ar adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys costau cynnal a chadw cerbydau
- costau gweithredu
- costau sy'n gysylltiedig â llenwi ffurflenni cais EMFF, yn cynnwys talu ymgynghorwyr i helpu pobl i lenwi'r ffurflenni cais
- costau cyfarpar a llafur eich hun
- cyfnewid peiriannau neu gyfarpar am rai newydd yr un fath
- cyfarpar hamdden (er y gall setiau teledu, taflunyddion ac ati at ddibenion addysgol neu fusnes fod yn gymwys)
- tirlunio, gwaith addurnol a darparu amwynderau hamdden
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol heblaw am ddesgiau, cadeiriau, cyfarpar ffôn, cyfrifiaduron a chyfarpar TG arall, meddalwedd a thele-argraffyddion, cyfarpar labordai a darlithfeydd sy'n hanfodol ar gyfer darparu'r prosiect
- mynd i ffeiriau masnach
- treuliau cyfarwyddwyr allanol
- costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu fel elw leswyr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfleusterau cymorth ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill
- gorbenion sy'n cael eu dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau llawer uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwaith tebyg a gyflawnir gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur grefyddol a/neu wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

- rhwymedigaethau digwyddiadol
- hapddigwyddiadau / darpariaethau
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- buddrannau
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyir
- costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- iawndal a delir i drydydd parti am ddifeddiannu, cnydau heb eu cynaeafu ac ati
- lawndal am gostau ychwanegol yr eir iddynt a/neu incwm na chafwyd
- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchenogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- diddanwch personol (gan gynnwys alcohol);
- costau sy'n gysylltiedig â gofynion a ddeillir o gamau gorfodi statudol
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW na ellir ei hadennill)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha.

84. Ni ellir defnyddio grant at ddiben caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig.

85. Dim ond os ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymhwysedd penodol y Mesur a phan fo'r gost wedi'i thalu'n gywir gan yr hawliwr y mae costau'n gymwys i gael cymorth grant yn gysylltiedig â phrynu cyfarpar (newydd a/neu ail law). Gan hynny, nid yw costau llawn unrhyw gyfarpar sy'n cael ei sicrhau dan drefniant hurbwrcasu neu brydles neu unrhyw drefniant ariannol arall yn gymwys am gymorth grant. O dan amgylchiadau penodol, gall elfen gyfalaf taliadau misol fod yn gymwys am gyfnod penodol, ond bydd rheolau eraill yn gymwys.

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol a

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

86. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 83-85 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur I.14: Erthygl 37 a Mesur I.16: Erthygl 39:

- gwariant cyfalaf (fel arfer, diffinnir gwariant cyfalaf yn unol â throthwy cyfalafu buddiolwr. Fel arfer, diffinnir hyn fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny â throthwy cyfalafu sefydliadol dros £5,000 fod yn gymwys am drothwy cyfalafu dros £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol, yn amodol ar gyflwyno achos â thystiolaeth briodol. Cynghorir buddiolwyr yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w roi ar eu prosiect)
- prynu tir
- caffael, adeiladu, gwella, adnewyddu a/neu addasu eiddo ansymudol
- prynu cerbydau.

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

87. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 83-85 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur I.17: Erthygl 40.1.a:

- gwariant cyfalaf (fel arfer, diffinnir gwariant cyfalaf yn unol â throthwy cyfalafu buddiolwr. Fel arfer, diffinnir hyn fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o fwy na blwyddyn). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny â throthwy cyfalafu sefydliadol dros £5,000 fod yn gymwys am drothwy cyfalafu dros £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol, yn amodol ar gyflwyno achos â thystiolaeth briodol. Cynghorir buddiolwyr yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w roi ar eu prosiect)
- prynu tir
- caffael, adeiladu, gwella, adnewyddu a/neu addasu eiddo ansymudol
- prynu cerbydau
- cymhellion ariannol nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chymell pysgotwyr i gymryd rhan mewn cynlluniau casglu gwastraff.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

88. Mae Mesur I.18 yn ymwneud â chymorth o dan ddwy Erthygl: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 83-85 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i, na Mesur I.18: Erthygl 44.6:

- prynu eiddo ansymudol (gan gynnwys treuliau cysylltiedig) **nad** yw'n uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer darparu'r prosiect
- prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae'r costau'n uwch na 10% o gyfanswm gwariant eich prosiect
- prynu cerbyd i'w ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben **ar wahân** i ddarparu gweithgaredd prosiect cymwys a/neu **nad** yw'n cynrychioli'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddarparu'r gweithgaredd prosiect cymwys.
- cymhellion ariannol nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â gosod dyfeisiau recordio awtomatig ar gychod pysgota er mwyn monitro a recordio data eigionegol.

CYFRADD UCHAF Y GRANT A THROTHWY UCHAF Y GRANT

89. Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y prosiect buddsoddi sy'n cynnwys; arian gan yr UE; cyd-gyllido cronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru; arian gan adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth; cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian gan gyrff llywodraethol a reolir fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi ardrethiannol (ardollau).

90. Os ceir arian cyhoeddus arall o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn grant EMFF.

91. Y trothwy grant isaf fesul prosiect unigol yw **£2,400**

92. Ar y cam hwn, ni phennwyd trothwy uchafswm ar gyfer grant. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen yn ddewisol a byddai swm y grant a gynigir yn gysylltiedig ag amgylchiadau unigol. Yr **isafswm angenrheidiol** fyddai hynny bob tro i alluogi'r prosiect i fynd rhagddo.

Cyfraddau Grant

93. Cyfraddau grant yw lefel uchaf y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys ar ei gyfer. Felly, mae'n rhaid i'r buddiolwr sicrhau gweddill yr arian o gronfeydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus. Os ceir arian cyhoeddus arall o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn grant EMFF.

94. Y gyfradd grant uchaf ar gyfer corff cyfraith gyhoeddus yw **100%**.

95. Mae'r cyfraddau grant uchaf ar gyfer buddiolwyr nad ydynt yn gyrrff cyfraith gyhoeddus fel a ganlyn:

- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer pysgotwyr arfordirol ar raddfa fach neu ar gyfer prosiect sy'n gysylltiedig â fflyd pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach yw **80%**⁷.
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer Sefydliadau'r Cynhyrchydd, cymdeithas o Sefydliadau'r Cynhyrchydd neu sefydliad rhyng-gangen yw **75%**.
- y gyfradd grant uchaf ar gyfer sefydliadau pysgotwyr neu gyd-fuddiolwyr eraill yw **60%**
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer sefydliadau preifat sy'n fusnesau bach a chanolig nad ydynt yn bysgotwyr arfordirol ar raddfa fach (ar gyfer prosiect nad yw'n gysylltiedig â fflyd pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach) yw **50%**.
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer mentrau mawr (sefydliadau preifat nad ydynt yn fusnesau bach a chanolig) nad ydynt yn bysgotwyr arfordirol ar raddfa fach (ar gyfer prosiect nad yw'n gysylltiedig â fflyd pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach) yw **30%**.

96. Trowch at adran "Sut mae Gwneud Cais" y Nodiadau Canllaw hyn i gadarnhau eich bod yn gymwys i ymgeisio.

Rhanddirymiadau:

97. Mae Erthygl 95 o Reoliad Rhif 508/2014 yr UE (Rheoliad EMFF) yn nodi:

Gall Aelod-wladwriaethau ddefnyddio lefel o gymorth cyhoeddus rhwng 50% a 100% o gyfanswm y gwariant cymwys os:

(a) yw'r gweithredu (prosiect) yn digwydd o dan Benodau I, II neu IV o Deitl V a'i fod yn bodloni'r holl feini prawf a ganlyn:

- (i) mae er budd pawb
- (ii) mae ganddo gyd-fuddiolwr
- (iii) mae ganddo nodweddion arloesol, lle y bo'n briodol, yn lleol.

98. Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r holl geisiadau am lefel uwch o gymorth cyhoeddus fesul achos. Disgresiwn Llywodraeth Cymru yw gwneud y penderfyniad terfynol ar lefel y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys i'w gael.

⁷ Mae Pysgota Arfordirol ar Raddfa Fach (SSCF) yn golygu pysgota o gychod pysgota sy'n mesur 11.99 metr o hyd neu lai heb ddefnyddio offer pysgota llusgo fel y rhestrir yn Nhabl 3 o Atodiad I i Reoliad Rhif 26/2004 y Comisiwn (CE).

Cyd-fudd a Chyd-fuddiolwr:

99. 'Cyd-fuddiolwr' yw sefydliad y cydnabyddir ei fod yn cynrychioli budd ei aelodau, grŵp o randdeiliaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Y sefydliad ei hun yn ei gyfarwydd ddylai fod yn fuddiolwr prosiect ac nid ei aelodau.
100. Caiff 'cyd-fudd' ei ddiffinio fel camau gweithredu a gaiff eu cymryd gan y sefydliad hwn sydd er cyd-fudd ei aelodau, grŵp o randdeiliaid neu'r cyhoedd. Dylai camau gweithredu o'r fath felly gwmpasu mwy na chyfanswm buddiannau unigol aelodau o'r cyd-fuddiolwr hwn.
101. Os nad oes gan brosiect fudd ariannol uniongyrchol i'r ymgeisydd sy'n cyflawni'r prosiect neu i fuddiolwr y prosiect a bod ganddo gyd-fudd a chyd-fuddiolwr (neu fuddiolwyr) yna gellir ei ystyried yn Gyd-brosiect.
102. Os oes gan brosiect fudd ariannol uniongyrchol i'r ymgeisydd sy'n cyflawni'r prosiect neu i fuddiolwr y prosiect yna ni ellir ei ystyried yn Gyd-brosiect.
103. At hyn, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gyfradd uwch o gymorth cyhoeddus, rhaid bod gan brosiect nodweddion arloesol.
104. Gellir diffinio arloesi mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Er enghraifft:
- **arloesi cynnyrch** yw cyflwyno nwyddau neu wasanaethau sy'n newydd neu wedi gwella'n sylweddol o ran eu nodweddion neu eu defnyddiau bwriadedig. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau sylweddol i'r manylebau technegol, y cydrannau a'r defnyddiau, y feddalwedd gysylltiedig, pa mor hawdd ydyw i'w drin neu nodweddion swyddogaethol eraill
 - ystyr **arloesi proses** yw rhoi dull cynhyrchu neu ddarparu ar waith sy'n newydd neu wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sylweddol mewn technegau, cyfarpar a/neu feddalwedd
 - ystyr **arloesi marchnata** yw rhoi dull marchnata newydd ar waith sy'n cynnwys newidiadau sylweddol i'r gwaith o ddylunio neu becynnu cynnyrch, lleoliad cynnyrch, hyrwyddo cynnyrch neu ei brisio
 - ystyr **arloesi sefydliadol** yw rhoi dull sefydliadol newydd ar waith fel rhan o drefniadaeth gweithle, cysylltiadau allanol neu arferion busnes y sefydliad neu'r cwmni.

Ffynhonnell: Oslo Manual: Guidelines for Collecting and Interpreting Innovation Data; Third edition (cyhoeddiad ar y cyd rhwng OECD a Eurostat):

<http://ec.europa.eu/eurostat/documents/3859598/5889925/OSLO-EN.PDF>

105. **Nid yw'r rhestr hon yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno achos cadarn a darbwyllog i ddangos bod ei brosiect**

arfaethedig yn cynnwys nodweddion gwirioneddol arloesol.

106. Gall nodweddion arloesol fod yn weithgareddau sy'n arloesol i'r sector neu'r diwydiant ond gallant hefyd fod yn arloesol i fusnes neu sefydliad, ond mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol. Os yw'r prosiect yn cael ei gyflawni'n lleol, rhaid i'r nodweddion arloesol fod yn bresennol yn lleol.
107. Disgwylir hefyd i'r ymgeisydd ddangos y canlynol:
- bod y nodweddion arloesol yn berthnasol i'r nodau a'r gweithgareddau cymwys o fewn y Mesur penodedig
 - dylai'r nodweddion arloesol fod yn berthnasol i gyflawni nodau'r prosiect.
108. Lle bo'r arloesi arfaethedig yn ymwneud â sefydliad neu fusnes, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod y gweithgarwch hwn hefyd yn cynrychioli rhywfaint o arloesi o fewn y sector neu'r diwydiant perthnasol.
109. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwerth am arian a gynrychiolir gan y prosiect cyfan, yn cynnwys unrhyw nodweddion arloesol arfaethedig fel rhan o'r arfarniad prosiect ehangach.
110. **Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r holl geisiadau am lefel uwch o gymorth cyhoeddus fesul achos. Disgresiwn Llywodraeth Cymru yw gwneud y penderfyniad terfynol ar lefel y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys i'w gael.**

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

111. Rhaid i bob prosiect gydymffurfio â holl reolau cymhwysedd y cynllun a rheolau Cymorth Gwladwriaethol er mwyn bod yn gymwys i gael arian.
112. Nid yw Erthyglau 107, 108 a 109 TFEU yn berthnasol i grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn a wneir yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, o fewn cwmpas Erthygl 42 TFEU. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prosiectau ymwneud â dal, cynhyrchu a/neu brosesu cynhyrchion pysgodfeydd. Caiff y rhain eu diffinio yn:
- Atodiad I i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (a geir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o dan 2012/C 326/01) ac
 - Atodiadau I a II i Reoliad Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd 1379/2013.
113. Os nad ydych chi'n teimlo bod eich prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn yna dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod eich prosiect cyn gwneud cais am arian.

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

114. I gael ei ddewis, mae disgwyl i brosiect, fel y bo'n briodol, ddangos:

Ei fod yn cydweddu â Rhaglen Weithredol EMFF:

Yn benodol, mae disgwyl i brosiect ddangos:

Cydweddiad Strategol:

Sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cefnogi nodau'r Mesur, yr Amcan Penodol a Blaenoriaeth yr Undeb drwy amlinellu:

Pob Mesur:

- sut bydd y prosiect yn cyfrannu at hyrwyddo pysgodfeydd arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Amcan Penodol 1: Lleihau effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd morol, gan gynnwys osgoi a lleihau, cyn belled â phosibl, dalfeydd diangen

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol a

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol a

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Benodol 1 o ran lleihau effaith pysgodfeydd ar yr amgylchedd morol, gan gynnwys osgoi a lleihau, cyn belled â phosibl, dalfeydd diangen
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Amcan Penodol 2: Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Benodol 2 o ran gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Dangosyddion a Chanlyniadau:

- sut bydd y prosiect yn cyfrannu at y Dangosyddion Canlyniadau EMFF sy'n berthnasol i'r Mesur a ddewiswyd fel y nodir yn adran Dangosyddion Canlyniadau'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Addasrwydd yr Ymyriad:

- esbonio'r manteision neu ganlyniadau ehangach yr ydych yn credu y gall y prosiect eu darparu, yn ychwanegol at y prif ganlyniadau y bydd yn eu cyfrannu at amcanion Blaenoriaeth yr Undeb, Amcan Penodol a Mesur (fel yr amlinellir yn yr adran ar Gydweddiad Strategol uchod)
- esbonio a fydd eich prosiect yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Rhaglen EMFF, fel y nodir yn yr adran Amcanion Strategol a Thematig o'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Y gallu i gyflawni:

Mae disgwyl i brosiect ddangos:

Yr angen am gyllid:

- na all y prosiect fynd rhagddo heb gymorth
- nad yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw
- bod bwch cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle bo hynny'n berthnasol.

Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar 'Sut mae Gwneud Cais' am ragor o fanylion.

Y gallu i sicrhau:

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfio â'r gyfraith
- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- cymorth perthnasol ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.

Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar 'Sut mae Gwneud Cais' am ragor o fanylion.

115. Po fwyaf yw pwysigrwydd a chyfraniad y prosiect neu'r buddsoddiad at amcanion thematig a strategol priodol, po debycaf yw y bydd yn cael ei argymhell ar gyfer ei ddewis.

GOFYNIION ALLWEDDOL

116. Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo fel ag y mae ar hyn o bryd heb gymorth grant.
117. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid llenwi bwlch isaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.
118. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:
- mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes angen hynny
 - mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi yn ôl yr angen
 - ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli, hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer tair blynedd olynol yn union cyn dyddiad y cais a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
 - bydd yn rhaid i fusnesau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiad y cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a chynigion y prosiect
 - cydymffurfio â Chyfraith y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol
 - cydymffurfio â'r safonau gofynnol a'r gofynion deddfwriaethol o ran yr amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch
 - sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y busnes.

DANGOSYDDION AC ADRODD

Dangosyddion:

119. Mae Rhaglen Weithredol EMFF yn nodi'r dangosyddion canlyniadau ac allbynnau y mae disgwyl i brosiectau adrodd arnynt.

Dangosyddion Allbwn:

120. Mae'r Dangosydd Allbynnau yn cofnodi nifer y prosiectau y dyfarnwyd grant iddynt. Sef:

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol a

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

- Nifer y prosiectau ar fesurau cadwraeth, lleihau effaith pysgota ar yr amgylchedd morol ac addasu pysgota i ddiogelu rhywogaethau

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol - casglu gwastraff a

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

- Nifer y prosiectau ar warchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

Dangosyddion Canlyniadau:

121. Mae'r Dangosyddion Canlyniadau wedi'u cynllunio i nodi'r manteision neu'r effeithiau sy'n deillio o bob prosiect a gefnogir. Mae Rhaglen Weithredol yr EMFF yn nodi amrywiaeth o Ddangosyddion Canlyniadau, a all fod yn berthnasol i brosiectau dan bob Mesur a gwmpesir gan y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

122. Cyfeiriwch at yr adran 'Tystiolaeth o Ddangosyddion Canlyniadau' isod am ragor o wybodaeth ynghylch y wybodaeth i'w darparu i fesur cyflawniad ar gyfer pob Dangosydd Canlyniadau a ddewisir.

123. Disgwylir am arweiniad pellach gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y Dangosyddion Canlyniadau penodol fydd yn cael eu cymhwyso i bob Mesur a diffiniadau penodol a gofynion tystiolaeth ar gyfer y dangosyddion hyn. Sylwch y gallai hyn arwain at ddiwygiadau i'r Dangosyddion Canlyniadau penodol y mae disgwyl i brosiectau adrodd cyflawniad ynddynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach ar ôl i'r wybodaeth hon fod ar gael.

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol

- Newid mewn dalfeydd diangen (%)
- Newid mewn effeithlonrwydd dal pysgod yng nghyd-destun y tanwydd (mewn litrau o danwydd / tunelli y ddalfa a laniwyd)

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol

- Newid mewn dalfeydd diangen (%)
- Newid mewn effeithlonrwydd dal pysgod yng nghyd-destun y tanwydd (mewn litrau o danwydd / tunelli y ddalfa a laniwyd)

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff

- Newid mewn dalfeydd diangen (%)
- Newid mewn effeithlonrwydd dal pysgod yng nghyd-destun y tanwydd (mewn litrau o danwydd / tunelli y ddalfa a laniwyd)

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

- Newid mewn sylw i Ardaloedd Morol Gwarchodedig:
 - (a) Newid mewn sylw i safleoedd NATURA 200 a ddynodir o dan y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
 - (b) Newid mewn sylw i fesurau gwarchodaeth ofodol eraill o dan Erthygl 13.4 o Gyfarwyddeb 2008/56/CE⁸

Dangosyddion Canlyniadau Tystiolaeth

124. Mae'r wybodaeth a ganlyn yn seiliedig ar y canllawiau drafft cyfredol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y wybodaeth sydd i'w darparu gan fuddiolwyr er mwyn mesur a chael tystiolaeth o gyflawniad ar gyfer eu dewis o Ddangosyddion Canlyniadau. Gall y wybodaeth hon newid pan gyhoeddir canllawiau mwy diweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach ar ôl i'r wybodaeth hon fod ar gael.

125. Newid mewn dalfeydd diangen (%)

- Cyfanswm dalfeydd o rywogaethau yn amodol ar yr ymrwymiad glanio cyn y prosiect
- Cyfanswm dalfeydd o rywogaethau yn amodol ar yr ymrwymiad glanio ar ôl y prosiect

126. Newid mewn effeithlonrwydd dal pysgod yng nghyd-destun y tanwydd (mewn litrau o danwydd / tunelli y ddalfa a laniwyd)

- Defnydd blynyddol o danwydd cyn ac ar ôl y prosiect
- Cyfaint blynyddol pwysau byw glaniadau cyn ac ar ôl y prosiect.

127. Newid mewn sylw i Ardaloedd Morol Gwarchodedig:

- (a) Newid mewn sylw i safleoedd NATURA 200 a ddynodir o dan y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
- (b) Newid mewn sylw i fesurau gwarchodaeth ofodol eraill o dan Erthygl 13.4 o Gyfarwyddeb 2008/56/CE⁹

- Graddfa ofodol yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig dan sylw

⁸ Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

⁹ Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

Data Gweithredu:

128. Yn unol â gofynion Rheoliad Gweithredu Comisiwn 1243/2014, bydd gofyn i brosiectau adrodd ar y wybodaeth a ganlyn hefyd:

Mesur I.14: Erthygl 37 – Cymorth ar gyfer dylunio a gweithredu mesurau cadwraeth a chydweithredu rhanbarthol:

129. Math o weithgaredd:

- dylunio
- datblygu a monitro
- cyfranogaeth rhanddeiliaid
- ailstocio uniongyrchol.

130. Nifer y stociau dan sylw (os yw hynny'n berthnasol).

131. Cyfanswm yr arwynebedd dan sylw yn ôl prosiect (mewn km²) (os yw hynny'n berthnasol).

Mesur I.16: Erthygl 39 – Arloesi cysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol:

132. Arwydd a yw prosiect yn ymwneud â:

- physgota môr
- pysgota mewndirol
- y naill a'r llall.

133. Math o brosiect:

- datblygu gwybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd sy'n lleihau effeithiau
- cyflwyno gwybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd sy'n lleihau effeithiau
- datblygu gwybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd sy'n sicrhau defnydd cynaliadwy
- cyflwyno gwybodaeth dechnegol neu sefydliadol newydd sy'n sicrhau defnydd cynaliadwy.

134. Nifer y pysgotwyr sy'n elwa o'r prosiect.

135. Os yw'r prosiect yn ymwneud â'r môr, Rhif Cofrestru Fflydoedd Cymunedol pob cwch sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Mesur I.17: Erthygl 40.1.a – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol – casglu gwastraff:

136. Nifer y pysgotwyr sy'n elwa o'r prosiect.
137. Rhif Cofrestru Fflydoedd Cymunedol pob cwch sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Mesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i ac Erthygl 44.6 – Gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol

138. Arwydd a yw prosiect yn ymwneud â:
- physgota môr
 - physgota mewndirol
 - y naill a'r llall.
139. Math o brosiect:
- buddsoddi mewn cyfleusterau
 - rheoli adnoddau
 - cynlluniau rheoli ar gyfer NATURA 2000 ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
 - rheoli NATURA 2000
 - rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig
 - codi ymwybyddiaeth
 - camau gweithredu eraill sy'n gwella bioamrywiaeth.
140. Cyfanswm yr arwynebedd dan sylw yn NATURA 2000 (mewn km²) (os yw hynny'n berthnasol).
141. Cyfanswm yr arwynebedd dan sylw mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig (mewn km²) os yw hynny'n berthnasol.
142. Nifer y pysgotwyr dan sylw.
143. Os yw'r prosiect yn ymwneud â'r môr, Rhif Cofrestru Fflydoedd Cymunedol pob cwch sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Pob Mesur

144. Dylid rhoi'r wybodaeth hon ar ddwy adeg yn ystod oes y prosiect:
- dylid nodi'r hyn y disgwylir ei gyflawni/targedau rhagweledig fel rhan o'r cais
 - dylid adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd ar ôl gorffen y prosiect.

THEMÂU TRAWSBYNCIOL

145. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawsbynciol sy'n ymwneud â Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a pheidio â gwahaniaethu a Datblygu Cynaliadwy. Mae angen ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol gorfodol hyn wrth ddylunio a datblygu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) ac wrth gynnal y gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd hynny. Mae hyn yn cynnwys EMFF.
146. Bwriad y themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth tra'n sicrhau'r cyfraddau cyfranogiad uchaf posibl a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn fod o gymorth i brosiectau symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n cefnogi'r arferion gorau.
147. Mae rhagor o ganllawiau yn:

<http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/cross-cutting-guidance/?skip=1&lang=cy>

SUT MAE GWNEUD CAIS

148. Gellir gwneud ceisiadau am gymorth drwy lenwi'r ffurflen gais a'i chyflwyno drwy WEFO Ar-lein (gweler y canllawiau ar wahân).
149. Unwaith y byddwch chi wedi cyflwyno eich cais llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon cydnabyddiaeth a hysbysiad atoch chi yn nodi bod modd i chi fwrw ati gyda'ch prosiect ar eich menter eich hun. Byddwch yn cael yr hysbysiad hwn o fewn 15 diwrnod gwaith i gyflwyno eich cais llawn.
150. **Ni ddylech ddechrau gweithio ar eich prosiect hyd nes y byddwch chi'n cael yr hysbysiad hwn.**
151. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **caiff yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**
152. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid i chi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**
153. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod wedi dod i law. Os yw eich prosiect yn anghymwys, cewch wybod hyn cyn

gynted â phosibl. Os yw eich cais yn gymwys bydd arfarniad technegol ac ariannol yn cael ei gynnal. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifir uchod.

154. Mae tri chanlyniad posib:

- (a) Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Cewch wybod cyn gynted â phosibl.
- (b) Mae'ch prosiect yn gymwys i'w ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam na fu eich cais yn llwyddiannus. Gallwch ymgeisio eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch) – **ar yr amod nad ydych wedi dechrau ar y gwaith.**
- (c) Mae'r prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Byddwch yn cael llythyr cymeradwyo yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.

AMODAU GRANT

155. Mae Cronfa EMFF yn amodol ar amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd a derbynnydd y cymorth yn y pen draw weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

156. Caiff grant o dan Gronfa EMFF ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu eich dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

1. Mae'n rhaid derbyn y grant a gynnigir o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ddeg (14) i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.
2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.

3. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith ar y prosiect cyn cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.
4. Mae'n rhaid i chi gyflawni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.

5. Ni chewch wneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
6. Ni chewch gael gwared ar, trosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys newidiadau anuniongyrchol e.e. lle bo safle neu gwch yn newid perchenogaeth neu lle bo lleoliad unrhyw eitemau a gaiff eu cyllido yn newid.
7. Eich cyfrifoldeb chi fel yr ymgeisydd gwreiddiol yw hysbysu'r perchenogion newydd o'r rhwymedigaethau cyllido sy'n gysylltiedig â'r eitem. Bydd yn ofynnol i'r perchenogion newydd dderbyn telerau ac amodau'r arian am y cyfnod sy'n weddill hyd at 5 mlynedd o ddyddiad derbyn y cynnig gwreiddiol am arian.
8. Os nad yw perchennog newydd yr eitem neu eitemau yn derbyn y telerau ac amodau cyllido sy'n gysylltiedig, yna tybir nad yw'r eitem wedi cyflawni ei rhwymedigaethau i'r cynllun, ac yn sgil hynny gellid dechrau cymryd camau a gellid adennill cyllid gennyh chi fel y derbyniwr gwreiddiol.
9. Ni chewch drosglwyddo cwch pysgota y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd am o leiaf 5 mlynedd ar ôl taliad yr arian EMFF i'r ymgeisydd; os gwnewch hyn bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r arian a gawsoch o dan EMFF yn rhannol neu i gyd. Mae'r union swm y mae'n rhaid i chi ei dalu yn dibynnu ar ba bryd y gwnaethoch chi drosglwyddo'r cwch.
10. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd perthnasol y Mesur.
11. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir ynghyd â'r holl ddogfennau angenrheidiol. Fel arall, byddant yn cael eu gwrthod a'u dychwelyd i'r ymgeisydd.
12. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
13. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch wyro oddi wrth hyn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
14. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes dim o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau o dan hawliad yswiriant.

15. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig).
16. Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at gyfraniad yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei gyllido.
17. Mae'n rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y busnes a darparu'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, fel tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau, nes diwedd y chweched flwyddyn ar ôl dyddiad olaf y cymorth ariannol a roddwyd i chi mewn perthynas â'r prosiect.
18. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i unigolion a awdurdodir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Ar gais, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu fynediad at ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.
19. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Dylech fod yn ymwybodol, os yw eich cais yn llwyddiannus, bod gan Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yr hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

20. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun i Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael yn <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/european-maritime-fisheries-fund/?skip=1&lang=cy>. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

TALU'R GRANT

Hawliadau

157. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ynghylch sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac wedyn pan gewch eich gwahodd i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
158. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ar y prosiect. Rhaid i bob hawliad terfynol ddod i law erbyn 30 Mehefin 2023 er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Os byddwch

chi'n methu â chyflwyno hawliadau, efallai y bydd y grant a dalwyd yn cael ei adennill.

159. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect, gellir ymweld â noddwr y prosiect a chynnal asesiad manwl o'r prosiect a gyflawnir. Gallai hyn gynnwys adolygu'r holl ddogfennau ategol gwreiddiol. Ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, efallai yr ymwelir â'r safle a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gynnal. Gallai'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad gynnwys heb fod yn gyfyngedig i; anfonebau gwreiddiol; rhifau cyfresol/peiriannau; tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo'n briodol); system lechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddi risg; dogfennau Asesu Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion Trefniadau Glanhau; cofnodion rheoli Plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Caiff y grant ei dalu ar yr amod y gwneir cynnydd digonol.

Hawliadau anghywir

160. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; ei fod am wariant sydd wedi'i dalu yn unig (mae'r arian wedi gadael y cyfrif banc); bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.

161. Os yw'r hawliad yn anghywir, bydd eich hawliad yn cael ei leihau i'r cyfanswm cymwys a bydd y grant i'w dalu yn cael ei gyfrifo yn unol â hynny.

162. Os oes gennych chi unrhyw amheuon ynglŷn â chymhwysedd unrhyw wariant, rhaid i chi wirio cyn i chi fynd i gostau.

Troseddau

163. Mae Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 Rhif 665 (W. 182) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag agweddau penodol ar gyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae'r enghreifftiau o'r troseddau'n cynnwys rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop; rhwystro arolygwr neu swyddog; a gwrthod rhoi gwybodaeth ar gais.

MONITRO PROSIECTAU

164. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect yn cyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, ni fyddai'n gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gellid cymryd camau i adennill y grant sydd wedi'i dalu.

165. Un o ofynion dyfarnu'r grant fydd sicrhau bod y cyfarpar sy'n cael ei brynu gyda chymorth grant EMFF ac unrhyw adeiladau y telir grant amdanynt, yn cael eu cadw yn eu lleoliad gwreiddiol, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Pwrpas hyn yw sicrhau hirhoedledd y prosiect.
166. Ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau ffurflen monitro arall ddwy flynedd ar ôl cwblhau ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau. Bydd ymweliadau â'r safle'n cael eu cynnal ar ganran o'r prosiectau buddsoddiad cyfalaf a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect i sicrhau bod gan yr ymgeisydd yr adeiladau a/neu'r cyfarpar a brynwyd gyda'r grant o hyd a'i fod yn dal i'w defnyddio at yr un dibenion a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.
167. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod pum mlynedd.

DIWEDD RHAGLEN EMFF

168. Rhaid i bob hawliad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023. Mae'n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn da bryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

GWEITHDREFN APELIO

169. Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau am ei wrthod yn cael eu hegluro. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.
170. Os yw cais yn dal i gael ei wrthod bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n annibynnol arnynt.

GWEITHDREFN GWYNO

171. Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn:

https://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/?skip=1&lang=cy

Atodiad A

Mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan Erthyglau 7, 8 ac 11 y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP), a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan Erthygl 18 y CFP

Mae Mesur I.14: Erthygl 37 yn darparu cymorth ar gyfer:

- dylunio, datblygu a monitro'r dulliau technegol a gweinyddol sydd eu hangen er mwyn datblygu a gweithredu mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan **Erthyglau 7, 8 ac 11** y CFP, a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan **Erthygl 18** y CFP
- cyfranogiad a chydweithrediad rhanddeiliaid rhwng Aelod-wladwriaethau wrth ddylunio a gweithredu mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan **Erthyglau 7, 8 ac 11** y CFP, a chydweithredu rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan **Erthygl 18** y CFP.

Mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan Erthyglau 7, 8 ac 11 y CFP

Mae'r mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan **Erthygl 7** y CFP yn ymwneud â'r canlynol:

- cynlluniau aml-flwydd (fel y nodir yn Erthyglau 9 a 10 y CFP)
- targedau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy stociau, a mesurau cysylltiedig i leihau effaith pysgota ar yr amgylchedd morol
- mesurau ar gyfer addasu capasiti pysgota cychod pysgota i'r cyfleoedd pysgota sydd ar gael
- cymhellion i hybu dulliau pysgota sy'n cyfrannu at bysgota mwy detholus, osgoi a lleihau dalfeydd dieisiau, a physgota sy'n cael effaith isel ar yr ecosystem forol ac ar adnoddau pysgodfeydd
- mesurau ar gyfer trefnu a dyrannu cyfleoedd pysgota
- mesurau ar gyfer cyflawni amcanion y rhwymedigaeth lanio
- meintiau cyfeirnod cadwraeth lleiaf
- prosiectau peilot ar fathau gwahanol o dechnegau rheoli pysgota ac ar offer sy'n cynyddu'r gallu i ddethol neu'n lleihau effaith negyddol gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd morol
- mesurau sy'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol yr Undeb (Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol; y Gyfarwyddeb Adar; y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) – fel y nodir yn Erthygl 11 y CFP
- mesurau technegol, gan gynnwys:
 - nodweddion offer pysgota a rheolau sy'n ymwneud â'u defnydd
 - manylebau ar wneuthuriad offer pysgota
 - cyfyngiadau neu waharddiadau ar ddefnyddio rhai offer pysgota, ac ar weithgareddau pysgota, mewn rhai ardaloedd neu gyfnodau

- gofynion i gychod pysgota roi'r gorau i weithredu mewn ardal benodol am isafswm cyfnod penodol er mwyn gwarchod cydgasgliad dros dro o rywogaethau dan fygythiad, pysgod sy'n silio, pysgod sy'n llai na'r maint cyfeirnod cadwraeth lleiaf, ac adnoddau morol eraill sydd mewn perygl
- mesurau penodol ar gyfer lleihau effaith negyddol gweithgareddau pysgota ar fioamrywiaeth ac ecosystemau morol.

Mae'r mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan **Erthygl 8** y CFP yn ymwneud â sefydlu ardaloedd adfer stociau pysgod; ardaloedd lle gellir cyfyngu ar weithgareddau pysgota neu eu gwahardd er mwyn cyfrannu at gadwraeth adnoddau morol byw ac ecosystemau morol.

Mae'r mesurau ar gyfer cadwraeth a datblygiad cynaliadwy adnoddau biolegol morol o dan **Erthygl 11** yn cynnwys y mesurau sy'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol yr Undeb (Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol; y Gyfarwyddeb Adar; y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)

Mesurau ar gyfer cydweithrediad rhanbarthol ar fesurau cadwraeth o dan Erthygl 18 y CFP

Mae Erthygl 18 y CFP yn nodi, lle mae gan y Comisiwn bwerau i fabwysiadu mesurau drwy ddirprwyo neu weithredu deddfau pan fydd mesur cadwraeth yr Undeb yn berthnasol i ardal ddaearyddol berthnasol, y gall Aelod-wladwriaethau sydd â budd rheoli uniongyrchol yr effeithir arno gan y mesurau hyn gydweithredu (cydweithredu rhanbarthol) er mwyn llunio a chyflwyno argymhellion ar y cyd ar gyfer cyflawni amcanion y mesurau hyn.

I gael manylion llawn y gweithgareddau cymwys, cyfeiriwch at y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.¹⁰

¹⁰ <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2013:354:0022:0061:EN:PDF>

Atodiad B

Eitemau o Gyfarpar a Buddsoddiadau Cymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i

Yn unol â darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2015/531, dim ond y prosiectau a'r buddsoddiadau a ganlyn sy'n gymwys o dan Fesur I.18: Erthygl 40.1.b-g, i.

O ran prynu eitemau peirianwaith a chyfarpar, dim ond y costau hynny sy'n angenrheidiol ar gyfer prynu a gosod eitemau i'w cyllido, ac sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hynny, a fydd yn gymwys i gael cymorth.

Ni fydd costau cynnal a chadw ataliol neu sydd wedi'u trefnu ar gyfer unrhyw ddarn o gyfarpar sy'n sicrhau bod dyfais yn gweithio'n iawn yn gymwys ar gyfer cymorth.

Math o fuddsoddiad / prosiect	Eitemau o Gyfarpar a Buddsoddiadau Cymwys
Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu, gosod neu foderneiddio cyfleusterau statig neu symudol a fwriedir i warchod a gwella fflora a ffawna morol, gan gynnwys eu paratoi a'u gwerthuso'n wyddonol	Prynu ac, os yw'n berthnasol, gosod cyfleusterau i warchod ardaloedd morol rhag treillio.
	Prynu ac, os yw'n berthnasol, gosod cyfleusterau i adfer ecosystemau morol sydd wedi dirywio.
	Costau sy'n ymwneud â gwaith rhagarweiniol fel archwilio, astudiaethau gwyddonol neu werthusiadau.
Ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o gyfrannu at well rheolaeth neu gadwraeth ar adnoddau biolegol morol	Prynu a/neu, os yw'n berthnasol, gosod bachau crwn.
	Prynu a/neu, os yw'n berthnasol, gosod dyfeisiau ataliol acwstig ar rwydi.
	Prynu a/neu, os yw'n berthnasol, gosod dyfeisiau eithrio crwbanod y môr ('TEDs').
	Prynu a/neu, os yw'n berthnasol, gosod llinynnau 'streamer'
	Prynu a/neu, os yw'n berthnasol, gosod offer neu ddyfeisiau eraill sydd â thystiolaeth o fod yn effeithlon o ran rhwystro dalfeydd damweiniol o rywogaethau gwarchodedig.
	Newid offer pysgota presennol am offer pysgota effaith isel, costau sy'n ymwneud â chewyll a thrapiau pysgod, jigio a ffunennau pysgota.

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

	Hyfforddiant i bysgotwyr ynghylch gwell rheolaeth neu gadwraeth ar adnoddau biolegol morol.
	Prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd ar gyfer pysgod, adar ac organebau eraill.
	Prosiectau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd o bwysigrwydd ar gyfer atgenhedlu pysgod, fel gwlyptiroedd arfordirol.
Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys paratoi, gan gynnwys astudio, llunio, monitro a diweddarau cynlluniau gwarchod a rheoli ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â physgodfeydd sy'n ymwneud â safleoedd NATURA 2000 ac ardaloedd gwarchodaeth ofodol y cyfeirir atynt yng Nghyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, ac sy'n ymwneud â chynefinoedd arbennig eraill	Cynnal astudiaethau, yn enwedig ar gyfer monitro a goruchwylio rhywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys mapio a rheoli risg.
	Mapio gweithgareddau pysgota a'u dwysedd, a'r rhyngweithio â rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig.
	Ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi cynlluniau rheoli.
	Datblygu a gweithredu dangosyddion ar gyfer pwysau ac effeithiau, a chynnal asesiadau statws cadwraeth.
	Hyfforddiant ar gyfer pysgotwyr a phobl eraill sy'n gweithio i'r cyrff sy'n gyfrifol am reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, neu ar ran y cyrff y hynny, a'r hyfforddiant hwnnw'n berthnasol i baratoi cynlluniau gwarchod a rheoli ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â physgodfeydd.
	Pennu ffiniau Ardaloedd Morol Gwarchodedig.
	Goruchwylio, yn cynnwys cyflogau unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau goruchwylio.
	Cyflawni mesurau cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth yng nghyswllt Ardaloedd Morol Gwarchodedig.
	Asesu effeithiau'r cynlluniau rheoli ar ardaloedd NATURA 2000 ac ardaloedd pysgodfeydd yr effeithir arnynt gan y cynlluniau rheoli.

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

<p>Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rheoli, adfer a monitro safleoedd NATURA 2000 yn unol â fframweithiau gweithredu wedi'u blaenoriaethu • rheoli, adfer a monitro Ardaloedd Morol Gwarchoddedig gyda'r nod o weithredu mesurau gwarchodaeth ofodol • codi ymwybyddiaeth amgylcheddol o ran gwarchod ac adfer bioamrywiaeth forol, a hynny'n cynnwys pysgotwyr 	Ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi cynlluniau rheoli.
	Datblygu a gweithredu dangosyddion ar gyfer pwysau/effeithiau, ac asesiadau statws cadwraeth.
	Goruchwylio safleoedd NATURA 2000 ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.
	Hyfforddiant i bobl sy'n gweithio i'r cyrff sy'n gyfrifol am reoli safleoedd NATURA 2000 ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, neu ar ran y cyrff hynny.
	Hyfforddi pysgotwyr ynghylch cadwraeth ac adferiad ecosystemau morol a gweithgareddau gwahanol cysylltiedig, fel ecodwristiaeth yn safleoedd NATURA 2000 ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.
	Mapio gweithgareddau pysgota a monitro eu dwysedd, a chofnodi rhyngweithio physgodfeydd â rhywogaethau gwarchoddedig, fel morloi, crwbanod y môr, dolffiniaid ac adar y môr.
	Cymorth ar gyfer datblygu mesurau i reoli physgodfeydd yn safleoedd NATURA 2000 ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, fel astudiaethau i asesu effaith ac asesiadau risg, gan gynnwys camau gweithredu i fireinio'u cysondeb.
	Cymorth ar gyfer mesurau i gynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol o ran gwarchod ac adfer bioamrywiaeth forol, a hynny'n cynnwys pysgotwyr.
Cydweithredu a rhwydweithio ymysg rheolwyr safleoedd NATURA 2000 ac Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.	
<p>Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chymryd rhan mewn camau gweithredu eraill gyda'r nod o gynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth</p>	<p>Costau sy'n ymwneud â chynlluniau i brofi technegau monitro newydd, ac yn arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • systemau monitro electronig o bell, fel CCTV, ar gyfer monitro a recordio dalffeydd damweiniol o rywogaethau gwarchoddedig • recordio data eigionegol fel tymheredd, halwynedd, plancton, tyfiant o algâu neu dyrfedd

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop – Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gymorth ar gyfer yr Amgylchedd Morol a Fflora a Ffawna Dyfroedd Mewndirol

	<ul style="list-style-type: none"> • mapio rhywogaethau goresgynnol estron • camau gweithredu, gan gynnwys astudiaethau, i atal a rheoli twf rhywogaethau goresgynnol estron.
	<p>Cymhellion ariannol i osod dyfeisiau recordio awtomatig ar y cwch er mwyn monitro a recordio data eigionegol, fel tymheredd, halwynedd, plancton, tyfiant o algâu neu dyrfedd.</p>
	<p>Costau ar gyfer llogi cychod pysgota masnachol ar gyfer gwaith arsylwi amgylcheddol ar gyfradd sy'n gymesur i'r gweithgaredd.</p>
	<p>Costau ar gyfer camau gweithredu gwyddonol eraill sy'n ymwneud â mapio ac asesu ecosystemau morol ac arfordirol a'u gwasanaethau.</p>
<p>Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â chymryd rhan mewn camau gweithredu eraill i gynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth gyda'r nod o adfer cynefinoedd arfordirol a morol penodol er mwyn cefnogi stociau pysgod cynaliadwy</p>	<p>Camau gweithredu sy'n lleihau llygredd ffisegol a chemegol.</p> <p>Camau gweithredu sy'n lleihau mathau eraill o bwysau ffisegol, gan gynnwys sŵn dan ddŵr anthropogenig, sy'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth.</p> <p>Mesurau cadwraeth cadarnhaol ar gyfer gwarchodaeth a chadwraeth fflora a ffawna, gan gynnwys ailgyflwyno rhywogaethau cynhenid neu eu stocio gyda hwy, a gweithredu'r egwyddorion Seilwaith Gwyrdd y cyfeirir atynt yng Ngohebiaeth y Comisiwn ar Seilwaith Gwyrdd.</p> <p>Camau gweithredu i atal, rheoli neu ddileu rhywogaethau goresgynnol estron.</p>